

# CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid  
*Clerk and Chief Financial Officer*

**Donna Watts**

Rhif Ffôn: 01248 602131

Ebost: [CyngorLlandygai@ogwen.org](mailto:CyngorLlandygai@ogwen.org)

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd Goffa, Mynydd Llandygai  
**Nos Iau 20 Gorffennaf 2017 am 1830**

## **PRESENNOL:**

Y Cynghorydd Dafydd Owen

Y Cynghorydd Dafydd Jones

Y Cynghorydd Huw Jones

Y Cynghorydd Iwan Hywel

Y Cynghorydd Gabrielle Wyn

Y Cynghorydd Mair Owen Pierce

Y Cynghorydd Gareth Davies

Y Cynghorydd Gwen Griffith

Y Cynghorydd Dafydd Roberts

**Croesawyd** pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Mair Owen Pierce.

Ymddiheuriadau gan y Cyng. Mair Jones

## **2. Swyddog Adfywio Bro**

Gwahoddwyd Dafydd E Jones i'r cyfarfod i drafod cyfarpar ac adnoddau ar gyfer bobl ifanc yr ardal, gan ddechrau gyda gwneud archwiliad ar beth sydd ei angen yn y fro. Penderfynwyd bydd y Swyddog Adfywio Bro yn llunio briff ac yn ymgynghori gyda Rheolwr Prosiect Partneriaeth Ogwen.

## **3. Cofnodion**

**Penderfynwyd:** Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2017.

## **4. Materion yn codi o'r cofnodion**

**4.1** Llwybr beics pentref Llandygai-adroddwyd bod beicwyr sy'n defnyddio'r Lôn Las sy'n mynd drwy'r pentref, yn mynd a'r wib. Y Clerc i holi am symud yr arwydd, fel bod beicwyr yn defnyddio llwybr arall drwy'r pentref. Dim ymateb hyd yn hyn.

**4.2** Adroddwyd bod bolard pren ar y llwybr tu ôl i'r hen siop wedi pydru. Cyngor Gwynedd am osod un newydd. Y gwaith wedi ei wneud erbyn hyn.

**4.3** Croes Celtaidd yn Graig y Pandy penderfynwyd holi Cadw os yw'r groes wedi ei chofrestru, ac os oes modd cael arwydd brown i'r safle. Cafwyd gadarnhad gan Cadw nad yw'r groes wedi ei chofrestru gyda hwy, ond ei bod yn ymddangos yng nghofnodion Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd.

**4.4** Pengamfa- plastr yn disgyn oddi ar y wal. Penderfynwyd derbyn y pris gan A Evans.

- 4.5** Gwair ger Felin Fawr yn felyn-angen cysylltu a Chyngor Gwynedd i holi os yw chwynladdwr wedi cael ei ddefnyddio ar y safle. Dim ymateb hyd yn hyn. Penderfynwyd holi Cyngor Gwynedd unwaith eto.

## 5. Gohebiaeth

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Gorffennaf 2017'

**Cyflwynwyd:** e-bost gan Cylch yr Iaith parthed apêl cais cynllunio Morbaine Ltd (Pen y Ffridd, Bangor) - penderfynwyd anfon llythyr at Lesley Griffiths AC a Chyngor Gwynedd, yn cytuno gyda sylwadau Cylch yr Iaith.

**Cyflwynwyd:** E-bost gan Gwasanaeth Eiddo Cyngor Gwynedd – adnewyddu prydles Canolfan Gymdeithasol Tregarth. Penderfynwyd dod o hyd i'r hen brydles yn gyntaf, er mwyn gwneud cymhariaeth.

**Cyflwynwyd:** llythyr gan Ysgol Dyffryn Ogwen yn gofyn i'r Cyngor ystyried cynnig nawdd ar gyfer yr Ysgoloriaeth eto eleni. Penderfynwyd bod y Cyngor yn hapus i wneud hyn.

**Cyflwynwyd-**llythyr gan Parc Cenedlaethol Eryri-fersiwn adneuo Cynllun Datblygu Lleol Eryri diwygiedig 2016-2031. Nodwyd yr ohebiaeth.

**Cyflwynwyd-** e-bost gan Llywodraeth Cymru-ymgynghoriad ar Gô Trefnidiaeth Ysgolion. Y Cyng. Mair Pierce i edrych ar y dogfennau.

**Cyflwynwyd** – e-bost gan Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn-sesiynau amrywiol drwy gydol mis Awst. Y Cynghorwyr i fynychu os yn gallu.

**Cyflwynwyd-** e-bost gan Un Llais Cymru-13eg cynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blyneddol Un Llais Cymru-achub y dyddiad 30 Medi ar Faes Sioe Brenhinol Cymru, Llanelwedd. Nodwyd yr ohebiaeth.

## 6. Gwaith y mis

- 6.1** Dob, Tregarth-adroddwyd bod cwynion am rhedyn sydd wedi gor-dyfu ar hyd y ffordd wedi eu derbyn. Y Cyng. Dafydd Owen am roi gwybod i Gyngor Gwynedd
- 6.2** Lôn Dob-gwaelod y ffordd wedi dirywio-pobl yn cerdded a baglu.
- 6.3** Allt St Ann – y ffordd wedi dirywio ac angen gwaith 'patsio'.
- 6.4** Llwybr rhif 25 o Bwlch Defaid i'r goedwig angen sylw. Y Clerc i gysylltu a Gerallt Jones yn yr Adran Llwybrau. Yr un pryd angen holi unwaith eto am Bont yr Ocar sydd yn berygl.

## 7. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr

**Canolfan Tregarth-** adroddwyd nad oedd yr ysgrifenyddes ar gael ar gyfer y cyfarfod, ond bod y Pwyllgor wedi cael sgwrs gyffredinol.

## 8. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu

8.1. Adroddwyd beth oedd y ffigyrau yn y banc ar ddiwedd mis Mehefin

8.2. Rheoli Risg: Dim i'w ystyried ar hyn o bryd

## 9. Taliadau

### Awdurdodwyd y canlynol

Eglwys St Ann a St Mair	£750.00
Eglwys Llandygai	£750.00
Eglwys St Mair Y Gelli	£750.00
G Williams	£3192.00

## 10. Cyfethol aelodau ar gyfer Ward Llandygai

Penderfynwyd gohurio'r eitem tan mis Medi

## 11. Penderfyniadau Cynllunio

C16/1340/16/LL	Ysgubor y Gelli, Lon y Wern, Tregarth Codi modurdai i wasanaethu llety gwyliau <b>Penderfyniad:</b> Holl ymgynghoriadau drosodd
C16/1339/16/LL	Ysgubor y Gelli, Lon y Wern, Tregarth Newid defnydd ysgubor yn uned wyliau <b>Penderfyniad:</b> Holl ymgynghoriadau drosodd
C17/0374/16/LL	The Secret Garden, Nr. The Grand Lodge, Penrhyn Park, Bangor Codi estyniad i adeilad allanol ynghyd a chodi ty gwydr newydd <b>Penderfyniad:</b> Caniatawyd, gydag amodau
C17/0373/16/CR	The Secret Garden, Nr. The Grand Lodge, Penrhyn Park, Bangor Estyniad i adeilad allanol presennol <b>Penderfyniad:</b> Caniatawyd, gydag amodau

C17/0298/16/YA

Fferm Moelyci, Lon Felin Hen,  
Tregarth  
Codi dau 'polytunnel' plastig ar ffrâm  
fetel

**Penderfyniad:** Caniatawyd, yn ddi-  
amodol

NP3/16/L3E

Tai Newyddion, Nant Ffrancon,  
Bethesda  
Gosod ffenestr ddormer ar yr  
edrychiad ochr

**Penderfynwyd:** Caniatawyd, gydag  
amodau

NP3/16/27

Tir ger Llyn Idwal, Gwarchodfa Natur  
Cenedlaethol Cwm Idwal

Codi pont droed newydd ar wely  
llechen gyda canllaw dur

**Penderfynwyd:** Caniatawyd, gydag  
amodau

C17/0498/16/LL

Llaethdy Parc Bryn Cegin, Bangor

Codi ffatri/llaethdy gaws ynghyd a  
chaffi a ardal ymwelwyr atodol

**Penderfyniad:** Holl ymgynghoriadau  
drosodd

C17/0462/16/LL

Bryn Gwynt, Lon y Wern, Tregarth

Tynnu un wal fewnol, dymchwel  
porthcefn a chodi estyniad cefn  
newydd sy'n cynnwys balcony

**Penderfyniad:** Caniatawyd, gydag  
amodau

## 12. Ceisiadau Cynllunio (*Y Cyngor. Huw Jones a Gwen Griffith wedi datgan diddordeb*)

C17/0612/16/LL

Tyddyn Ganol, Llwybr Main, Mynydd  
Llandygai

**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad

## 13. Unrhyw fater brys arall

Dim i'w drafod.